# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 12 Mai 2015** |
| Amser: | **09.01 – 10.59** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3195**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Sandra Alexander, Cyngor Bro Morgannwg**<br>**Jennie Bibbings, Shelter Cymru**<br>**Sioned Hughes, Cartrefi Cymunedol Cymru**<br>**Lindsey Kearton, Cyngor ar Bopeth Cymru**<br>**Paul Langley, Cartrefi Cymunedol Cymru**<br>**Elle McNeil, Cyngor ar Bopeth Cymru**<br>**Helen Northmore, Chartered Institute of Housing**<br>**John Puzey, Shelter Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Hannah Johnson (Ymchwilydd)**<br>**Alan Morris (Swyddfa Archwilio Cymru)** |

Nick Selwyn (Swyddfa Archwilio Cymru)
Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)

---

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.3 Datganodd Sandy Mewies fuddiant fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad (eitem 2.4) a dywedodd Julie Morgan fod ei merch yn gweithio i Shelter Cymru (Eitem 4).

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ymateb i Gomisiwn y Cynulliad (Eitem 2.4) yn gofyn am eglurhad pellach ar y tanwariant targed o 1% o'r gyllideb weithredol.

2.1 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynglŷn â threfniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon (30 Ebrill 2015)

2.2 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Llythyr gan James Price, Llywodraeth Cymru (29 Ebrill 2015)

2.3 Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant: Llythyr gan William Graham AC, Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes (1 Mai 2015)

2.4 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd (7 Mai 2015)

## 3 Diwygiad Lles: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sioned Hughes, Cyfarwyddydd Polisi ac Adfywio, a Paul Langley, Uwch-gynghorydd yn Cartrefi Cymunedol Cymru; Helen Northmore, Cyfarwyddwr, Sefydliad Tai Siartredig Cymru (CIHC) a Sandra Alexander, Rheolwr Incwm Tai, Cyngor Bro Morgannwg ar ei ymchwiliad i ddiwygio lles.

3.2 Cytunodd Sioned Hughes i anfon rhagor o wybodaeth am:

- yr ymagwedd wahanol a gymerwyd yn Lloegr tuag at apeliadau
- nifer y cartrefi yn y sector rhentu sydd wedi eu hisosod yng Nghymru
- nifer y bobl ag anableddau sy'n cael eu heffeithio gan y cymhorthdal ystafell sbâr

- tystiolaeth o'r ffordd y mae cymdeithasau tai yn parhau i fod heb ddiweddaru eu polisïau trosglwyddo i sicrhau nad yw ôl-ddyledion yn ymwneud â diwygio lles yn rhwystr i symud i gartrefi llai o faint.

## 4 Diwygiad Lles: Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Puzey, Cyfarwyddwr a
Jennie Bibbings, Rheolwr Polisi ac Ymchwil, Shelter Cymru; a
Lindsey Kearton, Swyddog Polisi ac Elle McNeil, Swyddog Polisi, Cyngor ar Bopeth Cymru ar ei ymchwiliad i ddiwygio lles.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Diwygiad Lles: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

7.1 Tynnodd Alan Morris sylw at y llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru.

7.2 Nododd Aelodau y byddai llythyr drafft gan y Cadeirydd at June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru yn cael ei ddosbarthu er mwyn cael eu sylwadau a chytundeb yn nes ymlaen heddiw.